Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Ebrill 2026

# Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Torfaen

## I bwy ydyn ni'n rhoi cymorth?

Mae Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Torfaen yn cefnogi gofalwyr di-dâl **sydd dan 18 oed**. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn diffinio gofalwr ifanc fel **"person sy'n gofalu am oedolyn neu blentyn anabl, neu sy'n bwriadu gwneud hynny,".** Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gofalwyr ifanc ymhellach fel unigolion o dan 18 oed sy'n darparu gofal.

## Pa gymorth sydd ar gael?

I ofyn am asesiad gofalwr ifanc ym Mwrdeistref Sirol Torfaen, gallwch gysylltu â'r awdurdod lleol yn uniongyrchol neu ofyn i rywun rydych chi'n ymddiried ynddo, fel athro, meddyg teulu, neu weithiwr cymorth, wneud atgyfeiriad ar eich rhan. Nid oes angen caniatâd rhieni arnoch bob amser i ofyn am asesiad, ond fel arfer bydd rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan lle bo hynny'n briodol i'ch cefnogi.

**Gofyn am "Asesiad Gofalwr Ifanc" drwy:**

e-bost: Cs.contact@torfaen.gov.uk

dros y ffôn: 01495 762200

**Unwaith y bydd cais neu atgyfeiriad wedi'i wneud**

Ar ôl i chi wneud atgyfeiriad, bydd yr awdurdod lleol yn adolygu'r wybodaeth yn gyntaf i benderfynu a oes angen asesiad llawn.

## Asesiad Gofalwr Ifanc: Beth i'w ddisgwyl yn Nhorfaen

Mae asesiad gofalwr ifanc yn Nhorfaen yn sgwrs rad ac am ddim, gyfrinachol gyda'r awdurdod lleol, i ddeall pa gymorth y gallai fod ei angen arnoch. Mae'n canolbwyntio ar eich lles, addysg ac iechyd, ac yn edrych ar y gofal rydych chi'n ei roi, a ydych chi'n hapus i barhau, a sut mae gofalu yn effeithio ar eich bywyd bob dydd. Y nod yw eich helpu i gydbwyso gofalu â bod yn blentyn neu'n berson ifanc.

Mae'r asesiad yn rhoi cyfle i chi siarad am eich teimladau a'ch profiadau fel gofalwr ifanc ac i esbonio pa gymorth fyddai'n eich helpu fwyaf. Fel arfer, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol yr ydych chi'n teimlo'n gyffyrddus i siarad ag ef ne hi, fydd yn gwneud yr asesiad. Gallwch hefyd ofyn am gymorth gan rywun rydych chi'n ymddiried ynddo, fel athro, aelod o staff ysgol, neu weithiwr o wasanaeth gofalwyr ifanc.

Yn ystod yr asesiad, byddant yn gwrando arnoch a byddwch yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi. Bydd yn helpu i nodi pa gymorth sydd ei angen arnoch a sut i gael y cymorth hwnnw. Mae'r asesiad hefyd yn ystyried a yw'r lefel o ofal rydych chi'n ei roi, yn briodol i'ch oedran ac mae'n edrych ar anghenion eich teulu cyfan, gan gynnwys y person rydych chi'n gofalu amdano.

Ar ôl yr asesiad, os ydych yn gymwys i gael cymorth, rhaid i'r awdurdod lleol ei roi. Hyd yn oed os nad ydych chi'n gymwys, efallai y byddant yn dal i gynnig cyngor neu gymorth arall. Gallwch ddewis peidio â chael asesiad, ond gall hyn gyfyngu ar y cymorth sydd ar gael i chi. Mae gennych yr hawl i weld beth sydd wedi'i ysgrifennu yn eich asesiad, a gallwch ofyn am newidiadau os ydych chi'n teimlo nad yw'n gywir. Dylai'r person sy'n gwneud yr asesiad wneud yn siŵr bod popeth yn cael ei esbonio'n glir fel eich bod chi'n ei ddeall.

## Cynllun Gofal a Chymorth (CGaCh) ac Adolygiadau

Os yw'r asesiad yn dangos eich bod yn gymwys, bydd cynllun gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu i nodi'ch anghenion a'r gefnogaeth y byddwch chi'n ei gael. Mae mynediad i'r cymorth hwn yn wirfoddol; fodd bynnag, mae angen cadw cyswllt parhaus â'r gwasanaeth i gadw'r cynllun ar agor. Rhaid adolygu'r cynllun hefyd o leiaf bob chwe mis.

## Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc

Mae gwasanaethau Gofalwyr Ifanc yn Nhorfaen yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sy'n helpu i ofalu am aelod o'r teulu. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol i helpu gofalwyr ifanc i reoli eu cyfrifoldebau, a chanolbwyntio ar eu lles, eu haddysg a'u bywyd cymdeithasol.

Gall cymorth gynnwys cymorth un i un, cymorth emosiynol, gweithgareddau grŵp, cyfleoedd i gael seibiant, a help gyda'r ysgol neu ddechrau mewn addysg bellach neu fyd gwaith. Mae gwasanaeth Gofalwyr Ifanc hefyd yn rhoi cyfle i bobl ifanc gwrdd ag eraill mewn sefyllfaoedd tebyg, gan helpu i leihau ynysu.

Hyd yn oed os nad ydych wedi cael asesiad ffurfiol, gallwch gael gwybodaeth, cyngor a rhywfaint o gymorth gan wasanaethau Gofalwyr Ifanc.

## Gyda phwy arall mae'r gwasanaeth yn gweithio?

Mae Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Torfaen yn gweithio mewn partneriaeth â:

## Y Gwasanaeth Ieuenctid

https://www.torfaen.gov.uk/en/EducationLearning/ChildrenandYoungPeople/Youngpeople-informationandadvice/Youth-Service.aspx

Mae'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen i gynnig grwpiau wythnosol yn ystod y tymor ar gyfer gofalwyr ifanc 11 oed a hŷn. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn cynnig gwahanol gymorth ledled Torfaen; cyfleoedd i bobl ifanc wneud gweithgareddau a chael cymorth ychwanegol.

# Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Torfaen

## Gwasanaeth Chwarae Torfaen

https://www.torfaen.gov.uk/en/EducationLearning/ChildrenandYoungPeople/PlayService/TorfaenPlayService/Play-Service.aspx

Mae Chwarae Torfaen yn cynnig grwpiau wythnosol yn ystod y tymor ar gyfer gofalwyr ifanc o oedran ysgol gynradd, ac mae'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn rhoi cymorth ac yn atgyfeirio i'r rhaglen. Mae Chwarae Torfaen yn cynnig ystod eang o gymorth drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ogystal â chyfleoedd i bobl ifanc wirfoddoli.

## Y Bartneriaeth Awyr Agored

https://partneriaeth-awyr-agored.co.uk/

Gan weithio gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored, gall gofalwyr ifanc gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau antur awyr agored am ddim, gan gynnwys heicio, dringo, canŵio, cerdded ceunentydd, ogofa, teithiau preswyl, a'r ŵyl antur awyr agored.

## Honeypot – Elusen i Blant

https://www.honeypot.org.uk/#:~:text=The%20Honeypot%20Children's%20Charity%20is%20a%20national,trusts%2C%20and%20foundations%20to%20provide%20their%20services.

Mae'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn cyfeirio plant rhwng 5 a 12 oed at Honeypot, yr elusen i blant. Maent yn cynnig cyfleoedd i aros am ddwy noson yn un o'u canolfannau. Yn ystod eu harhosiad, mae gofalwyr ifanc yn cael cefnogaeth gan weithwyr chwarae, a gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae therapiwtig. Mae'r elusen hefyd yn cynnig gwahanol fathau o gymorth ychwanegol, gan gynnwys gweithgareddau ar-lein.

## Cynghrair Ieuenctid Torfaen

https://www.torfaen.gov.uk/cy/AboutTheCouncil/Have-Your-Say/Torfaen-Youth-Alliance/Torfaen-Youth-Alliance.aspx

Mae Gofalwyr Ifanc Torfaen yn gweithio gyda Chynghrair Ieuenctid Torfaen i gefnogi fforwm gofalwyr ifanc, lle mae pobl ifanc yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cysylltu â fforymau a chynghorau ieuenctid eraill i godi materion sy'n effeithio arnynt, a dylanwadu ar newid cadarnhaol, parhaol trwy eiriolaeth.

## Y Grŵp Teulu a Chymuned

Mae'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn cael mynediad at gymorth drwy'r Grŵp Teulu a Chymuned, gan gynnwys adnoddau cymunedol fel mannau a rennir, offer a gweithgareddau lleol.

# Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Torfaen

## Gŵyl Gofalwyr Ifanc Cymru

https://ycfestival.wales

Bob blwyddyn ym mis Awst, mae Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Torfaen yn cefnogi 45 o ofalwyr ifanc i fynychu Gŵyl Gofalwyr Ifanc am ddim yn Llanfair-ym-Muallt.

## Cymdeithas y Plant a Grŵp YMCA Fairthorne

https://www.childrenssociety.org.uk/information/young-people/young-carers/festival

Bob mis Mehefin, mae'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn cefnogi tua 45–50 o ofalwyr ifanc i fynychu gŵyl gofalwyr ifanc yn Southampton. Yn 2026, rhoddwyd cymorth ychwanegol hefyd ar gyfer ymweliad preswyl antur awyr agored ychwanegol ym mis Ionawr.

## Cerdyn Adnabod (ID) i Ofalwyr Ifanc (Cynllun Cerdyn)

Mae'r Cerdyn Adnabod i Ofalwr Ifanc yn gerdyn ID â llun am ddim sy’n cael ei rhoi gan Fwrdeistref Sirol Torfaen i ofalwyr ifanc sydd wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc ac sy'n gofyn am gerdyn. Mae’r cerdyn a gafodd ei lansio yn Nhorfaen ar 15 Mawrth 2021, yn cadarnhau bod y perchennog yn ofalwr ifanc gyda chyfrifoldebau gofalu. Does dim rhaid bod y gofalwyr ifanc yn gweithio gyda'r gwasanaeth i dderbyn cerdyn.

Mae'r cerdyn yn ddilys am ddwy flynedd neu nes bod y person ifanc yn troi'n 18 oed. Mae'n rhan o gynllun cenedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac awdurdodau lleol ledled Cymru i wella profiadau gofalwyr ifanc mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.

Mae'r cerdyn adnabod yn ffordd hawdd i ofalwyr ifanc o dan 18 oed ddangos i weithwyr proffesiynol eu bod yn ofalwyr, heb orfod rhannu manylion personol am eu rôl gofalu. Yn Nhorfaen, mae'r cerdyn hefyd yn cynnig manteision ychwanegol drwy Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen, gan gynnwys nofio am ddim a chyfle i fynd i’r gampfa a dosbarthiadau ffitrwydd.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:**
**Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Torfaen**
**Ffôn: 01495 742344**
**E-bost:** youngcarers@torfaen.gov.uk